## Comisiwn y Cynulliad
## Assembly Commission

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**NAFWC 2014 (Papur 2)**
**Prosiect Cymorth i Aelodau'r Cynulliad (SAM)**
**Adroddiad Cynnydd**

**Dyddiad: 25 Tachwedd 2009**
**Amser: 07:45**
**Lleoliad: Ystafell Gynadledda 4B**
**Enw a rhif cyswllt yr awdur: Chris Reading, est 8664**

# Prosiect Cymorth i Aelodau'r Cynulliad (SAM) Adroddiad Cynnydd

*Mae'r papur hwn wedi cael ei baratoi er mwyn i Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru ei ystyried. Barnwyd ei fod yn addas i'w gyhoeddi yn dilyn ystyriaeth o'r fath, yn unol â rheolau'r Comisiwn ar gyfer cynnal busnes.*

**1.0 Diben a chrynodeb o'r materion**

**1.1** Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Comisiwn am y cynnydd mewn perthynas â'r Prosiect SAM. Mae'r papur hwn er gwybodaeth yn unig.

**2.0 Argymhellion**

**2.1** Gwahoddir y Comisiwn i nodi'r wybodaeth a ddarperir.

**3.0 Trafodaeth**

**3.1 Cynllun Gweithredu**

**3.1.1** Daeth y 28 argymhelliad o dan Gyfnod 1 y cynllun gweithredu i rym ar 2 Tachwedd. Roedd hyn yn cynnwys argymhelliad 13, a oedd yn uwchraddio taliadau ychwanegol swydd-ddeiliaid penodol, gan gynnwys cadeiryddion pwyllgorau.

**3.1.2** O argymhellion Cyfnod 1, cafodd 26 eu rhoi ar waith gan Benderfyniad Cyflogau a Lwfansau 2009 (Rhif 2) diwygiedig. Mae'r ddau argymhelliad arall (104 a 105) yn ymwneud â newid enwau'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a'r

Pwyllgor Archwilio. Gofynnir i'r Comisiwn ystyried argymhelliad 104 o dan eitem 4 ar yr agenda. Cafodd argymhelliad 105 ei roi ar waith gan gynnig a gyflwynwyd gan gadeirydd y Pwyllgor Busnes, a drafodwyd ar 4 Tachwedd. Enw newydd y Pwyllgor Archwilio fydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus.

3.2 Strategaeth Gyfathrebu

3.2.1 Mae'r Adran Cyfathrebu Allanol, mewn ymgynghoriad â Bwrdd Prosiect SAM, wedi llunio strategaeth gyfathrebu sy'n parhau i gael ei hadolygu'n gyson. Diben y strategaeth yw sicrhau bod Aelodau'r Cynulliad, eu staff cymorth, staff y Cynulliad a'r cyhoedd yn gyffredinol yn cael gwybodaeth am gynnydd a cherrig milltir allweddol.

3.2.2 Mae Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth wedi cael gwybodaeth am gynnydd drwy dudalennau mewnrwyd yr Aelodau a thrwy e-byst gan Reolwr Prosiect SAM. Mae linc i'r wybodaeth ddiweddaraf hefyd wedi ei hychwanegu at dudalennau mewnrwyd y staff er mwyn sicrhau eu bod hwythau hefyd yn gallu cael mynediad at wybodaeth am gynnydd.

3.2.3 Mae Bwrdd Prosiect SAM ar hyn o bryd yn ceisio sefydlu grŵp cynghori ar gyfer staff cymorth yr Aelodau. Diben y grŵp hwn fydd ymgynghori ar yr argymhellion hynny sy'n arbennig o berthnasol i staff cymorth.

3.2.4 Cynhaliwyd trafodaethau adeiladol rhwng Rheolwr Prosiect SAM (Chris Reading) a David Melding AC ynghylch dulliau o feithrin ymrwymiad i ddysgu a datblygu ymhlith Aelodau. Bwriedir sefydlu grŵp cynghori Aelodau trawsbleidiol er mwyn gwneud mwy o gynnydd gyda'r gwaith hwn. Mae gwaith hefyd ar y gweill i sefydlu grŵp cynghori ar gyfer staff cymorth yr Aelodau, er mwyn darparu fforwm ar gyfer trafod materion sydd o bwys arbennig iddynt hwy.

3.3 Mesur Taliadau Arfaethedig

3.3.1 Gosodwyd y Mesur Arfaethedig gerbron ar 19 Hydref, a chafodd ei gyfeirio at Bwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1 ar gyfer gwaith craffu Cyfnod 1. Disgwylir i'r gwaith o roi ystyriaeth

fanwl iddo ddechrau yn gynnar ym mis Rhagfyr, ac y bydd y Pwyllgor yn cyflwyno'i adroddiad Cyfnod 1 cyn diwedd mis Mawrth 2010. Bydd y Mesur yn sefydlu bwrdd taliadau annibynnol statudol a fydd yn pennu cyflogau Aelodau'r Cynulliad ac yn adolygu eu system sy'n ymwneud â chymorth ariannol.

3.3.2 Mae'r gwaith hwn yn rhan o ail gyfnod y rhaglen weithredu, sy'n cynnwys 22 o argymhellion y panel adolygu. Mae gwaith ar y gweill gyda'r argymhellion hyn i gyd.

3.4 Adroddiad Kelly

3.4.1 Cyhoeddodd y Pwyllgor safonau mewn Bywyd Cyhoeddus ei adroddiad (adroddiad Kelly) ar 4 Tachwedd. Mae hwn yn adolygiad cynhwysfawr o system treuliau a lwfansau Aelodau Seneddol. Gwnaeth yr adroddiad 60 o argymhellion yn cynnwys amryw o faterion; gan gynnwys llety, staffio, swyddfeydd, cyfathrebu, teithio, llywodraethu, tryloywder, diddordebau allanol a threfniadau wrth adael swydd. Caiff yr argymhellion allweddol eu crynhoi yn Atodiad 1.

3.5 Sylw'r Cyfryngau

3.5.1 Roedd sylw'r cyfryngau i gyfnod cyntaf y rhaglen weithredu yn gadarnhaol. Caiff hwn ei grynhoi yn Atodiad 2.